
Roedd Dr Meredydd Evans yn un o fawrion y genedl, yn enwog am ei gyfraniad mawr i ddiwylliant ein gwlad.  Bu farw ym mis Chwefror 2015.

# Merêd wedi marw



Bu farw Dr Meredydd Evans – Merêd – cawr ym myd adloniant ac ymgyrchydd iaith a heddwch.

Roedd wedi ei daro'n wael yr wythnos ddiwetha' ac wedi bod yn anymwybodol yn yr ysbyty.

Roedd yn 95 oed ac wedi bod yn ffigwr cenedlaethol ers 70 o flynyddoedd, yn ganwr ac arloeswr ym myd adloniant ysgafn ac yn ei flynyddoedd ola', yn arweinydd ysbrydol i ymgyrchwyr iaith.

**Bywyd cynnar**

Cafodd Meredydd Evans ei eni yn Llanegryn, Sir Feirionnydd yn 1919 a'i fagu yn Nhanygrisiau, ac ef oedd yr olaf o 11 o blant.

Gadawodd yr ysgol yn bedair ar ddeg oed i fynd i weithio i'r *Co-op*, ond aeth yn fyfyriwr i Goleg Harlech ac wedyn i Fangor i astudio Athroniaeth, gan raddio yn 1945.

Fe ddaeth yn enwog i ddechrau yn yr 1940au pan oedd yn aelod o 'Driawd y Coleg' – y grŵp cynta' i gael enwogrwydd trwy gyfrwng y radio.

Ef oedd prif gyfansoddwr eu caneuon, gan fenthyg elfennau o ganeuon poblogaidd y cyfnod, ac fe ddaeth rhai o'r caneuon, fel 'Triawd y Buarth' a 'Beic Peni-Ffardding', yn fath o ganeuon gwerin modern.

## America a'r byd academaidd

Ar ôl symud i'r Unol Daleithiau, wedi iddo gyfarfod â'i wraig, y gantores opera o'r America, Phyllis Kinney, enillodd Ddoethuriaeth o Brifysgol Princeton yn New Jersey cyn mynd yn ddarlithydd i Boston.

Fe gafodd lwyddiant yno hefyd yn canu gwerin ac roedd y briodas yn ddechrau ar bartneriaeth hir yn ymchwilio i ganu gwerin a'i boblogeiddio.

Daeth yn diwtor Addysg Oedolion yng Ngholeg Prifysgol Bangor, cyn cael ei benodi'n Bennaeth Adran Adloniant Ysgafn BBC Cymru yn 1963.

## BBC

Yn ystod ei ddegawd gyda'r Gorfforaeth yn nyddiau Gwenlyn Parry a Rhydderch Jones, roedd yn gyfrifol am nifer o raglenni poblogaidd, gan gynnwys 'Fo a Fe', 'Ryan a Ronnie', 'Hob y Deri Dando' a 'Lloffa'.

Ar ôl gadael y Gorfforaeth yn 1973, aeth yn diwtor yn Adran Efrydiau Allanol Coleg Prifysgol Caerdydd am ddeuddeng mlynedd ola'i yrfa, lle'r oedd yn cynnal dosbarthiadau ar lenyddiaeth Cymru.

## Canu a chyfansoddi

Y tu hwnt i'r byd academaidd, roedd hefyd yn adnabyddus fel canwr a chyfansoddwr.

Ynghyd â'i wraig, oedd yn gantores broffesiynol ym Michigan, ymchwiliodd yn helaeth i draddodiad canu gwerin yng Nghymru.

Cymerodd Meredydd Evans ran mewn digwyddiad i lansio gwefan gynhwysfawr o waith Dafydd ap Gwilym, prosiect a gafodd ei arwain gan Brifysgol Abertawe yn 2007, gan ganu tair o gerddi'r bardd canoloesol i gyfeiliant Bethan Bryn ar y delyn.

## Yr ymgyrchydd

Yn ystod y 1970au, roedd yn un o ymgyrchwyr mwyaf blaenllaw'r Gymraeg wrth sicrhau hawliau ym meysydd darlledu a'r Ddeddf Iaith.

Fe gorddodd y dyfroedd gydag araith o lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn rhybuddio am y peryg i gymunedau Cymraeg.

Ym 1979, roedd yn un o dri, ynghyd â Pennar Davies a Ned Thomas, a gafwyd yn euog o ddiffodd trosglwyddydd teledu Pencarreg yn ystod yr ymgyrch hir i sefydlu S4C.

Ar hyd y blynyddoedd wedyn, fe fu'n gefnogwr cadarn i ymgyrchwyr ifanc Cymdeithas yr Iaith ac yn siarad yn gyson mewn ralïau.

Ei faes ymgyrchu arall oedd heddwch, ac fe gymerodd ran mewn llawer o brotestiadau yn erbyn rhyfel ac arfau niwclear.

**Ffynhonnell**

golwg360

**Darllen**

Wedi i chi ddarllen y darn uchod, cwblhewch y canlynol.

1. Rhowch ✓ gyferbyn â'r ffeithiau cywir.

*(Adalw gwybodaeth)*

| | **Cywir** |
|---|---|
| Roedd Meredydd Evans yn 95 oed pan fu farw. | |
| Doedd e ddim yn hoff o gerddoriaeth. | |
| Roedd e'n credu ei bod yn bwysig i ymgyrchu dros yr iaith. | |
| Doedd e ddim yn poeni os oedd rhyfeloedd yn digwydd yn y byd. | |
| Roedd e'n enwog yng Nghymru ers 70 o flynyddoedd. | |

2. Nawr, gosodwch y ffeithiau cywir yn eu trefn er mwyn llunio paragraff byr amdano. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno defnyddio'r brawddegau nad ydynt yn gywir yn eich paragraff. Bydd angen i chi eu cywiro'n ofalus os ydych chi'n penderfynu eu defnyddio.
Bydd disgwyl i chi roi 3 ffaith amdano, ond gallwch rhoi 5 ffaith, os ydych yn dymuno. **Cofiwch** mai dim ond y brawddegau sydd yn y bocs uchod y gallwch eu defnyddio.

*(Aralleirio a chrynhoi)*

3. Cwblhewch y tabl canlynol.

*(Adalw gwybodaeth)*

| **FFEIL-O-FFEITHIAU** | |
|---|---|
| ENW | Meredydd Evans |
| MAN GENI | |
| BLWYDDYN EI ENI | |
| SAWL BRAWD A CHWAER | |
| OEDRAN YN GADAEL YSGOL | |
| EI SWYDD GYNTAF | |

4. Roedd caneuon 'Triawd y Coleg', y grŵp cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn boblogaidd. Nodwch enw dwy o'r caneuon yr oeddent yn eu canu.

*(Adalw gwybodaeth)*

5. Beth oedd enw gwraig Merêd, a ble wnaethon nhw gyfarfod?

*(Adalw gwybodaeth)*

6. Pa swydd gafodd Merêd yn 1963?

*(Adalw gwybodaeth)*

7. Cafodd Meredydd Evans a dau ddyn arall eu harestio am wneud niwed i drosglwyddydd teledu Pencarreg fel rhan o'r frwydr i sefydlu S4C. Pwy oedd y ddau ddyn yma ac ym mha flwyddyn ddigwyddodd hynny?

*(Adalw gwybodaeth)*

**Llafaredd**

Trafodwch:

8. Mae nifer o bobl yn credu bod Meredydd Evans yn 'arwr' i ni'r Cymry. Trafodwch, yn eich barn chi, beth allai wneud i bobl gredu hyn. A yw person fel hyn yn haeddu'r fath sylw? A yw colli person fel hyn yn golled i'r wlad?

9. Petai rhaid i chi ddewis pum person sydd yn haeddu cael eu hystyried fel 'arwyr' i ni fel cenedl, pwy fyddai'r rhain a pham fyddech chi yn eu dewis?

**Ysgrifennu**

10. Ysgrifennwch bortread o berson yr ydych chi'n ei ystyried yn 'arwr'. Amlinellwch eich rhesymau dros eich dewis. Cofiwch nad oes rhaid i'r person hwn fod yn enwog.

11. Ysgrifennwch gyfres o gwestiynau y byddech wedi hoffi eu trafod gyda Meredydd Evans petaech wedi cael y fraint o'i gyfarfod. Cofiwch ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y darn darllen wrth benderfynu ar y mathau o gwestiynau yr hoffech fod wedi cael y cyfle i'w holi.